O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 3101 (Cy. 323)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Yng Nghyffiniau Cylchfan Cefncoedycymer, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2011

Gwnaed *29 Rhagfyr 2011*

Yn dod i rym *4 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Ionawr 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Yng Nghyffiniau Cylchfan Cefncoedycymer, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y mewn cysylltiad â'r gwaith sydd wedi arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 4 Ionawr 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud yn derfynol;